BookTrust
Getting children reading

# Dechrau ysgol: adeg dyngedfennol i gefnogi mwynhad o ddarllen



# Cynnwys


**1 Crynodeb** **3**

**2 Pam mae dechrau ysgol yn adeg dyngedfennol** **4**

**3 Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?** **6**

Mae'r mwynhad a geir o ddarllen yn gostwng pan fo plant yn dechrau ysgol 6

Mae profiadau darllen yn newid wrth i blant ddechrau ysgol 7

Mae angen cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o ddarllen 8

Mae arferion y teulu yn cael eu rhoi o dan bwysau 9

Mae cymorth yn bwysig i sicrhau bod pawb yn gyfartal 10

**4 Sut allwn ni feithrin mwynhad o ddarllen wrth i blant ddechrau ysgol a thu hwnt?** **12**

Ymwreiddio darllen a rhannu straeon wrth baratoi ar gyfer yr ysgol 13

Cefnogi rhieni a gofalwyr ar adeg o ansicrwydd pan maent yn agored eu meddwl 14

Cadw'r cydbwysedd rhwng darllen er mwynhad a dysgu sut i ddarllen 15

**5 Atodiad** **16**

Methodoleg ymchwil 16

Sylfeini ar gyfer grwpiau oedran a grwpiau incwm 17

Cyfeiriadau 18




# Crynodeb

## Cefnogi mwynhad o ddarllen wrth bontio i'r ysgol

### Beth sy'n newid pan fydd plentyn yn dechrau ysgol

**Mae'r mwynhad a geir o ddarllen yn gostwng pan fo plant yn dechrau ysgol**
(4 i 5 oed)

**Arferion darllen newydd**
O rannu mewn ffordd chwareus i ddarllen mwy strwythuredig sy'n canolbwyntio ar sgiliau

**Gwahanol fathau o ddarllen gartref**
Cydbwyso llyfrau ysgol, dewis plentyn, rhannu straeon a darllen yn uchel

**Mae cymorth yn bwysig i sicrhau bod pawb yn gyfartal**
Mae gan rieni a gofalwyr fannau cychwyn gwahanol ac maent yn barod i dderbyn arweiniad

**Pwysau ar arferion y teulu**
Mwy o flinder, llai o amser hyblyg a mwy o ofynion sy'n cystadlu

### Beth all ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar ei wneud

**Tawelu meddwl**
Sicrhau bod negeseuon yn galonogol ac nad ydynt yn rhoi llawer o bwysau ar bobl

**Modelu**
Dangos sut all darllen ar y cyd er mwynhad edrych

**Gwneud lle**
Diogelu amser ar gyfer darllen yn uchel, dewis plentyn a siarad am lyfrau

**Cysylltu**
Defnyddio llyfrau, straeon, caneuon a rhigymau gartref ac yn yr ysgol

**Cynnwys**
Sicrhau bod cymorth yn hygyrch, yn amrywiol ac yn ymatebol

# Pam mae dechrau ysgol yn adeg dyngedfennol

Mae dechrau ysgol yn garreg filltir allweddol i blant. Ond nid yw plant – a'u teuluoedd – yn cyrraedd y fan hon o'r un man cychwyn. Yn wir, ar yr adeg hon y daw gwahaniaethau yn sylfeini datblygiadol plant, megis sylw, hunanreoleiddio, cyfathrebu ac iaith, yn fwy gweladwy.[1] Yn aml, mae'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu profiadau cynnar anghyson, wedi'u llunio gan bwysau ariannol, arferion dyddiol llai rhagweladwy[2] a mynediad anghyfartal at gymorth.[3] Nid yw anghydraddoldebau o ran yr amodau sylfaenol hyn yn diflannu pan fydd plant yn dechrau ysgol – maent yn parhau i lunio'r amser, yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael i rieni a gofalwyr yn ystod y broses bontio hon.

Gall bylchau yng nghanlyniadau plant, sy'n deillio o'r sylfeini anghyson hyn, barhau a gallant hyd yn oed ehangu wrth i blant fynd yn hŷn.[4] Gall darllen, gyda'i fanteision eang, chwarae rhan bwysig wrth leihau'r bylchau hyn.[5] Fodd bynnag, er gwaethaf yr adroddiadau bod y rhan fwyaf o blant yn mwynhau darllen yn y blynyddoedd cynnar[6], mae amlder darllen a'r mwynhad a geir ohono yn tueddu i ostwng wrth i blant fynd yn hŷn.[7] Mae dechrau ysgol yn bwynt gwyro critigol ar gyfer y dirywiad hwn.

Mae ein hadroddiad nodedig **Tueddiadau, ysgogwyr ac anghydraddoldebau darllen yn ystod plentyndod yn y DU** yn dangos sut mae gwahaniaethau o ran amser teulu, hyder, arferion a chymorth ehangach yn effeithio ar ba mor hawdd ydyw i gynnal profiadau darllen cadarnhaol gartref. Mae'r pontio i'r ysgol yn ail-lunio rhythmau a blaenoriaethau teuluoedd, a'r cymorth o'u cwmpas. Mae hefyd yn cyflwyno'r busnes difrifol o ddysgu sut i ddarllen. Nid yw cymorth ar yr adeg hon felly yn gwestiwn syml o p'un a ddylai addysgwyr flaenoriaethu sgiliau darllen neu ddarllen er mwynhad. Trwy ei fframio yn y modd hwn mae risg y bydd y mater sylfaenol – anghydraddoldeb – yn cael ei bwrw i'r cysgod. Yn hytrach, y cwestiwn yw sut i gefnogi pob teulu i gynnal cymysgedd cyfoethog o arferion darllen wrth i blant dyfu ac wrth i'w hanghenion newid.





> "Ar yr union adeg pan mae'r mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen yn dechrau gostwng, mae mynediad at lyfrau yn anghyson. Yn ein profiad ni, mae hyn yn gwneud rôl yr ysgol yn arbennig o bwysig, wrth ddarparu mynediad at ystod gyfoethog o destunau – gan gynnwys gwahanol genres a llyfrau sy'n adlewyrchu ystod eang o brofiadau – ac wrth lunio'r mathau o brofiadau darllen sy'n helpu plant i ddatblygu cysylltiad parhaol â darllen."
>
> **Matthew Courtney, Arweinydd Strategol Hwb Saesneg Wandle a Chyfarwyddwr Partneriaeth Dysgu Wandle**

## Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio tystiolaeth ac ymarfer i ddangos pam mae'r broses o bontio i'r ysgol gynradd yn adeg dyngedfennol i gefnogi darllen er mwynhad gartref. Mae'n amlinellu sut y gall lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion helpu teuluoedd i barhau i ddarllen gyda'i gilydd wrth i blant ddod yn ddarllenwyr mwy annibynnol, gan adeiladu ar y mwynhad o lyfrau a straeon y mae llawer eisoes yn eu rhannu.

### Cyd-destun polisi

Mae agenda **Best Start in Life** chanllawiau **Supporting a smooth transition into Reception** Llywodraeth y DU ill dau yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i helpu plant i deimlo'n ddiogel, yn hyderus ac yn barod i ddysgu. Mae ymarfer mewn ysgolion sy'n meithrin mwynhad plant o ddarllen yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu'r sylfaen sydd ei hangen ar blant i gyflawni eu potensial. Mae'r amgylchedd dysgu gartref hefyd yn parhau i fod yn ganolog. Mae darllen ar y cyd, adrodd straeon, siarad am lyfrau a darllen yn uchel yn rhan allweddol o'r gefnogaeth a roddir i iaith, llythrennedd, swyddogaeth weithredol[8], lles a pherthnasoedd plant, gan eu helpu i deimlo'n barod i gymryd rhan mewn bywyd ysgol.

# Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?

## Mae'r mwynhad a geir o ddarllen yn gostwng pan fo plant yn dechrau ysgol

Mae'r mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen yn parhau i fod yn uchel yn y blynyddoedd cynnar ond mae'n dangos gostyngiad amlwg rhwng 4 a 5 oed. Mae'r gostyngiad yn fwy amlwg wrth edrych ar blant yr adroddir eu bod yn 'caru' darllen.



Adroddir bod **81% o blant 5 oed 5** yn hoffi neu'n caru darllen, o gymharu ag **89% o blant 4 oed.**

Adroddir bod **44% o blant 5 oed** yn caru darllen, o gymharu â **55% o blant 4 oed.**

Yn ein harolwg, mae 'darllen' yn cael ei ddiffinio mewn ffyrdd sy'n briodol i oedran sy'n adlewyrchu sut mae plant ifanc yn ymgysylltu â llyfrau fel arfer, gan gynnwys rhannu llyfrau, eu darllen neu edrych arnynt.

I lawer o blant, a'u rhieni a'u gofalwyr, 4–5 oed yw'r pwynt lle mae set newydd o ddisgwyliadau ac arferion ysgol yn dechrau ffurfio. Mae hyn yn awgrymu bod pontio i'r ysgol yn adeg bwysig i gefnogi perthynas newidiol plant â darllen a'i ymwreiddio yn y disgwyliadau a'r trefniadau newydd hyn.

Mae deall beth sy'n digwydd ar y cam hwn yn bwysig ar gyfer dod o hyd i'r atebion cywir. Mae ein hymchwil yn awgrymu nad yw'n ymwneud â phlant yn colli diddordeb mewn llyfrau yn unig.

Pan fo plant yn dechrau ysgol:

- **Mae profiadau darllen yn newid**
- **Mae angen cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o ddarllen**
- **Mae arferion y teulu yn cael eu rhoi o dan bwysau**
- **Mae cymorth yn bwysig i sicrhau bod pawb yn gyfartal**

## Mae profiadau darllen yn newid wrth i blant ddechrau ysgol

Mae ein hymchwil gyda theuluoedd yn dangos bod ymddygiadau darllen, a rôl llyfrau a rhannu straeon, yn esblygu wrth i blant dyfu.[9] Wrth i blant ddechrau ysgol gynradd, mae darllen yn aml yn dechrau newid o ran ystyr ac yn ymarferol. Gall fod mwy o gysylltiad rhyngddo â disgwyliadau'r ysgol, ffoneg, cofnodion darllen a chynnydd. Wrth bontio i'r ysgol, mae newid yn y mathau o arferion darllen ar y cyd y mae rhieni a gofalwyr yn adrodd eu bod yn eu defnyddio. Mae arferion chwareus, mynegiannol yn dod yn llai cyffredin, tra bod arferion cyfarwyddol ac arferion sy'n gysylltiedig â deialog yn dod yn fwy cyffredin.

Mae arferion cyfarwyddol ac arferion sy'n gysylltiedig â deialog yn werthfawr, gan gefnogi iaith, dealltwriaeth a llythrennedd cynnar plant.[10] Ond gall y dulliau hyn wneud i ddarllen deimlo'n fwy penodol ac ymdrechgar, yn enwedig pan fo teuluoedd yn mynd i'r afael ag arferion ysgol newydd hefyd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bwysig diogelu darllen hamddenol, chwareus a arweinir gan blant hefyd.



### Mae arferion chwareus a mynegiannol yn dod yn llai cyffredin

Mae **14% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed** yn adrodd eu bod yn actio straeon gan ddefnyddio pypedau, teganau neu wrthrychau, o gymharu â **23% o rieni a gofalwyr plant 0–3 oed.**

Mae **62% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed** yn adrodd eu bod yn defnyddio lleisiau, tonau, mynegiant neu weithredoedd gwahanol, o gymharu â **73% o rieni a gofalwyr plant 0–3 oed.**

### Mae arferion cyfarwyddol ac arferion sy'n gysylltiedig â deialog yn dod yn fwy cyffredin

Mae **43% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed** yn adrodd eu bod yn annog eu plentyn i gofio'r stori o'i gof neu yng ngeiriau'r plentyn ei hun, o gymharu â **33% o rieni a gofalwyr plant 2–3 oed.**

Mae **54% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed** yn adrodd eu bod yn gofyn cwestiynau i'w plentyn am y stori, o gymharu â **38% o rieni a gofalwyr plant 2–3 oed.**

Mae **53% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed s** yn adrodd eu bod yn esbonio neu'n addysgu synau, llythrennau neu eiriau o'r llyfr, o gymharu â **45% o rieni a gofalwyr plant 2–3 oed.**

## Mae angen cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o ddarllen

Wrth i blant ddechrau ysgol, mae llawer o deuluoedd yn dechrau derbyn llyfrau darllen, llyfrau ffoneg, adnoddau digidol ac arweiniad ar sut i gefnogi darllen cynnar. Mae gwahanol fathau o ddarllen yn chwarae rolau gwahanol ac ategol. Mae llyfrau ffoneg yn helpu plant i ymarfer a chymhwyso'r sgiliau maent yn eu datblygu. Mae llyfrau a ddewisir gan blant, darllen ar y cyd a darllen yn uchel yn helpu i gynnal mwynhad, cymhelliant, sgwrs a chysylltiad emosiynol â llyfrau.

I rai, mae'n anodd cyflawni'r cydbwysedd hwn gartref: mae 16% o rieni a gofalwyr plant 5 oed yn cytuno ei bod hi'n anodd dod o hyd i amser i rannu'r llyfrau a'r straeon y mae eu plentyn yn eu dewis am eu bod yn blaenoriaethu'r darllen a roddir gan yr ysgol. I eraill, efallai na fydd mynediad at yr ystod o lyfrau sy'n helpu ffoneg a dewis y plentyn yn gytbwys.

Mae **85% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed** yn adrodd bod eu plentyn yn dod â llyfrau ffoneg neu lyfrau cynllun darllen adref o'r ysgol.

Mae **76% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed** yn adrodd bod eu plentyn yn dod â llyfrau o'i ddewis adref o'r ysgol i'w darllen er hwyl.

"Dydyn ni ddim yn darllen cymaint o lyfrau nawr... yn ychwanegol at y llyfrau sy'n dod adref o'r ysgol. Felly mae angen i ni fynd yn ôl i'r arfer o wneud hynny. Fe wnaethon ni newid blaenoriaeth oherwydd roedden ni'n gwybod bod yn rhaid iddi ddarllen yr un yna, wyddoch chi."

**Rhiant plentyn 5 oed, Gogledd Iwerddon**



## Mae arferion y teulu yn cael eu rhoi o dan bwysau

Gall rhythm bywyd teuluol newid pan fydd plant yn dechrau ysgol. Efallai y byddant yn fwy blinedig, gall nosweithiau deimlo'n llai hyblyg, ac mae'n rhaid i ddarllen gystadlu ag arferion newydd, gwaith cartref, clybiau, amser sgrin a gwaith darllen a roddir gan yr ysgol.

### Mae plant yn fwy blinedig

Dywedodd **64% o rieni a gofalwyr plant** oedd yn dechrau ysgol fod eu plentyn yn fwy blinedig gyda'r nos.[11]

### Mae'n teimlo fel pe bai amser y teulu yn cael ei wasgu

Roedd **54% o rieni a gofalwyr plant** oedd yn dechrau ysgol yn cytuno bod ganddynt lai o amser i'w dreulio yn cael hwyl gyda'u plentyn.[11]

### Mae amser sgrin yn dod yn fwy o bryder

Mae **34% o rieni a gofalwyr plant 4 oed** yn dweud eu bod yn poeni bod eu plentyn yn treulio gormod o amser ar sgriniau, gan godi i **41% ymhlith rhieni a gofalwyr plant 5 oed.**


### Mae'n anoddach parhau i ddarllen ar y cyd bob dydd

Mae darllen ar y cyd bob dydd yn gostwng o **55% yn 4 oed i 47% yn 5 oed.**

## Mae galwadau sy'n cystadlu yn cynyddu gydag oedran

Wrth i blant fynd yn hŷn, mae rhieni a gofalwyr yn adrodd fwyfwy bod galwadau sy'n cystadlu yn ei gwneud hi'n anoddach darllen neu rannu llyfrau a straeon mor aml ag y byddent yn ei ddymuno. Mae'r gofynion hyn sy'n cystadlu yn cynnwys clybiau, gwaith cartref, amser sgrin a gwaith darllen a roddir gan yr ysgol.

**% o rieni a gofalwyr sy'n nodi bod galwadau sy'n cystadlu yn rhwystr i ddarllen neu rannu straeon mor aml ag y byddent yn ei ddymuno**



## Mae cymorth yn bwysig i sicrhau bod pawb yn gyfartal

Mae’r mwyafrif o rieni a gofalwyr yn rhoi gwerth mawr ar ddarllen ac yn deall eu bod yn chwarae rôl hanfodol.

Mae **92% o rieni a gofalwyr plant 5 oed** o’r farn eu bod yn chwarae rôl hanfodol wrth ddatblygu gallu eu plentyn i ddarllen.

Mae **79% o rieni a gofalwyr plant 5 oed** eisiau i’w plentyn dreulio mwy o amser gyda llyfrau.

Mae gwahaniaethau mewn amser, hyder, cynefindra a mynediad at lyfrau a chymorth yn llunio pa mor hawdd ydyw i gynnal y mwynhad y mae plant yn ei gael o ddarllen gartref. Mae plant o aelwydydd incwm isel yn llai tebygol o ddarllen ar y cyd bob dydd, ac mae’r bwlch hwn yn parhau dros amser. Yn 5 oed, mae 42% o blant o aelwydydd incwm isel yn darllen gyda rhywun bob dydd, o gymharu â 50% o blant o aelwydydd nad ydynt yn rhai incwm isel.

Mae dechrau ysgol yn adeg pan fydd rhieni a gofalwyr yn teimlo’n arbennig o ansicr ac mae llawer yn barod i dderbyn cymorth.

> “Mae dechrau ysgol yn adeg bwerus. Mae teuluoedd yn aml yn llawn cymhelliant ac yn agored eu meddwl, ond nid oes gan bob un yr un amser, hyder neu fynediad at gymorth. Os bydd y cymorth cywir yn ei le – cymorth hygyrch ac ymarferol sy’n rhoi tawelwch meddwl – gallwn ni droi’r foment honno yn gyfle gwirioneddol i leihau bylchau ac adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer cariad gydol oes plant at ddarllen.”
>
> **Lizzie Catford, Cyfarwyddwr Llyfrau Plant**



Mae **64% o rieni a gofalwyr plant 5 oed** yn dweud y bydden nhw'n hoffi mwy o wybodaeth a chymorth i helpu eu plentyn i dreulio mwy o amser gyda llyfrau a straeon, o gymharu â **57% o rieni a gofalwyr plant 4 oed.**

Mae **37% o rieni a gofalwyr plant 5 oed** yn dweud nad ydynt yn gwybod sut i helpu eu plentyn i fwynhau darllen, o gymharu â **29% o rieni a gofalwyr plant 4 oed**.




Mae rhieni a gofalwyr yn edrych fwyfwy at athrawon fel ffynhonnell cymorth darllen ar y cam hwn. Mae 51% o rieni a gofalwyr plant 5 oed yn dweud eu bod wedi cael cymorth, wedi dod o hyd i syniadau neu wedi dysgu awgrymiadau am ddarllen a rhannu straeon gan athrawon ac ysgolion. Fodd bynnag, nid yw pob teulu yn cael y cymorth sydd ei angen arno. Mae tua un o bob pump o rieni a gofalwyr yn dweud nad ydyn nhw wedi cael gwybodaeth na chymorth i helpu eu plentyn i fwynhau darllen: 22% o rieni a gofalwyr plant 4 oed ac 20% o rieni a gofalwyr plant 5 oed.

Mae angen i'r cymorth a roddir ar y cam hwn gydnabod yr ystod eang o hyder a gwybodaeth sydd gan deuluoedd a'r mynediad sydd ganddynt at adnoddau, a darparu arweiniad clir a hygyrch sy'n tawelu'r meddwl ac sy'n adeiladu ar eu harferion a'u cryfderau presennol.

Nid yw pontio i'r ysgol yn cael ei brofi mewn ffordd gyfartal. I rai plant, yn enwedig y rhai mewn gofal maeth, y rhai sy'n derbyn gofal gan berthynas neu'r rhai sydd wedi'u mabwysiadu, gall y cyfnod hwn ddod ag ansicrwydd ychwanegol a chodi cwestiynau am hunaniaeth, cefndir teuluol neu wahaniaethau rhwng bywyd gartref ac yn yr ysgol.[12] Yn y cyd-destun hwn, mae ysgolion yn chwarae rôl hanfodol ochr yn ochr â rhwydwaith ehangach o weithwyr proffesiynol, gan weithio gyda gofalwyr i gefnogi lles emosiynol plant a'u hymdeimlad o berthyn a hyder wrth iddynt ymgartrefu. Gall darllen ar y cyd helpu trwy ddarparu angor cyson, pwysau isel sy'n cefnogi parhad a chysylltiad ar draws lleoliadau cartref, ysgol a gofal.

# Sut allwn ni feithrin mwynhad o ddarllen wrth i blant ddechrau ysgol a thu hwnt?

Rydym wedi nodi tair ffordd allweddol y gall athrawon a gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar gefnogi darllen plant ar draws lleoliadau blynyddoedd cynnar, yn yr ysgol ac yn yr amgylchedd dysgu gartref:

**Ymwreiddio darllen a rhannu straeon wrth baratoi ar gyfer yr ysgol**

**Cefnogi rhieni a gofalwyr ar adeg o ansicrwydd pan maent yn agored eu meddwl**

**Cadw'r cydbwysedd rhwng darllen er mwynhad a dysgu sut i ddarllen**



# Ymwreiddio darllen a rhannu straeon wrth baratoi ar gyfer yr ysgol

Mae 53% o rieni a gofalwyr plant 4–5 oed yn dweud bod darllen a rhannu straeon wedi helpu i baratoi eu plentyn ar gyfer dechrau ysgol. Mae hyn yn awgrymu ei fod eisoes yn chwarae rôl ond mae angen mwy o ymwybyddiaeth – ar gyfer cefnogi sgiliau ond hefyd fel arfer a all gynnig sefydlogrwydd a chysylltiad yn ystod cyfnod o newid.

## Syniadau ymarferol

- **Ei ddefnyddio pan fydd plant yn pontio:** Gall cynnwys llyfrau, straeon, rhigymau, caneuon neu adrodd straeon ar lafar mewn sesiynau aros a chwarae, ymweliadau cartref, diwrnodau cynefino, pecynnau croeso a'r wythnosau cyntaf yn y Derbyn helpu plant i ddod i adnabod pobl, gofodau ac arferion heb fod llawer o bwysau yn cael ei roi arnynt.
- **Tawelu meddyliau teuluoedd:** Gall cynnig negeseuon clir nad ydynt yn rhoi llawer o bwysau ar bobl roi sicrwydd nad oes angen i blant fod yn darllen cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, a bod mwynhau llyfrau, straeon, caneuon a rhigymau gyda'i gilydd yn ffordd wych o helpu plant i deimlo'n gyfarwydd â'r hyn y byddant yn ei brofi yn yr ysgol.
- **Defnyddio llyfrau i archwilio newid:** Gall rhannu ac argymell straeon am ddechrau ysgol, cyfeillgarwch, gwahanu, arferion a theimladau gefnogi sgyrsiau gartref am y profiadau sydd ynghlwm wrth bontio.
- **Creu parhad rhwng y cartref a'r ysgol:** Gall defnyddio bagiau llyfrau, llyfrgelloedd benthyca ac argymhellion a rennir greu cynefindra a pharhad. Gall llyfr y mae plentyn wedi'i fwynhau yn yr ysgol ddod yn bont i ddarllen ar y cyd gartref.

## Adnoddau defnyddiol BookTrust

**Ein 5 awgrym ar gyfer llyfrau am ddechrau ysgol:**
















- Mwy o lyfrau i'w darllen i ddosbarth newydd
- Adnoddau i athrawon, gan gynnwys cynlluniau gwersi, i gefnogi plant sy'n dechrau ysgol drwy ddarllen a rhannu straeon
- Gwybodaeth i rieni a gofalwyr am sut y gall llyfrau a straeon helpu i baratoi eich plentyn ar gyfer yr ysgol ac awgrymiadau da ar gyfer darllen gyda'ch gilydd
- Fideo gan yr awdur Tom Percival am sut y gall llyfrau a straeon helpu i gychwyn sgyrsiau am sut mae plant yn teimlo

# Cefnogi rhieni a gofalwyr ar adeg o ansicrwydd pan maent yn agored eu meddwl

Mae pontio i'r ysgol yn gyfnod pan mae llawer o rieni a gofalwyr yn barod i dderbyn arweiniad, gan gynnig cyfle gwerthfawr i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, alinio dulliau rhwng y cartref a'r ysgol, a helpu teuluoedd i deimlo'n fwy hyderus yn rhannu llyfrau a straeon fel bod plant yn parhau i fwynhau darllen a'i werthfawrogi.

## Syniadau ymarferol

- **Darparu arweiniad sy'n tawelu'r meddwl:** Gall negeseuon cyson sy'n pwysleisio bod darllen anffurfiol er mwynhad gartref yn werthfawr ac nad oes angen iddo fod yn berffaith helpu rhieni a gofalwyr i gadw hyn mewn cof ar adeg pan fo llawer o wybodaeth yn cael ei rhoi iddynt.
- **Cynnig awgrymiadau bach, hyblyg:** Mae annog gweithredoedd hylaw a darparu awgrymiadau yn helpu i adeiladu ar arferion a chryfderau sy'n bodoli eisoes, yn hytrach nag ymddangos fel 'gwaith cartref' penodedig. Er enghraifft, awgrymwch dreulio pum munud gyda llyfr cyfarwydd, siarad am y clawr, gofyn am yr hyn maen nhw'n sylwi arno mewn llun, ymuno wrth nodi geiriau sy'n ailadrodd, neu adrodd stori yn iaith gartref y teulu.
- **Dangos sut all darllen ar y cyd edrych:** Gall defnyddio arddangosiadau, er enghraifft mewn sesiynau rhannu llyfrau anffurfiol neu fideos byr mewn cylchlythyrau, helpu i drosi cyngor yn ymddygiadau pendant. Gall hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i rieni a gofalwyr sydd â llai o brofiad blaenorol.
- **Sicrhau bod cymorth yn hygyrch ac yn gynhwysol:** Gall lleihau rhwystrau ymarferol a seicolegol helpu mwy o deuluoedd i deimlo bod darllen yn gyraeddadwy. Er enghraifft, gall awgrymiadau gweledol neu ddeunyddiau wedi'u cyfieithu gefnogi ystod o brofiadau a dewisiadau llythrennedd.

## Adnoddau defnyddiol BookTrust

- 'Shared Reading Together': adnoddau athro ar gyfer gweithdai rhieni Derbyn (dyluniwyd gan BookTrust a The Wandle English Hub)
- Adnoddau DPP ar gyfer cynorthwywyr addysgu wrth ddatblygu arfer gorau ar gyfer darllen yng Nghyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1
- Awgrymiadau ymarferol i rieni a gofalwyr i'w helpu i annog plant i ddarllen gartref
- Ffyrdd hawdd o wneud rhannu straeon yn hwyl wrth ddarllen gartref
- Dod o hyd i hoff lyfr nesaf eich plentyn gan ddefnyddio ein teclyn chwilio Bookfinder

# Cadw'r cydbwysedd rhwng darllen er mwynhad a dysgu sut i ddarllen

Mae dull cytbwys sy'n cyfuno ffoneg a darllen er mwynhad yn helpu i ddatblygu sgiliau ac yn cefnogi ymgysylltiad dyfnach. Er bod ffoneg yn adeiladu datgodio a rhuglder, mae darllen er mwynhad yn meithrin cymhelliant, hyder a chysylltiad â llyfrau, ac yn sicrhau bod plant yn cael mynediad at iaith a straeon cyfoethocach y tu hwnt i'w lefel ddarllen.[13]

## Syniadau ymarferol

- **Gwarchod lle ar gyfer mwynhad:** Mae creu cyfleoedd rheolaidd i ddarllen heb bwysau a heb unrhyw gysylltiadau â pherfformiad yn helpu plant i gadw'r cysylltiad rhwng darllen a mwynhad. Er enghraifft, rhowch gynnig ar amseroedd stori dyddiol, amser pori tawel, archwilio llyfrau lluniau neu oedolyn yn darllen yn uchel.
- **Darllen yn uchel yn rheolaidd:** Mae darllen yn uchel mewn ffordd fynegiannol a diddorol yn sicrhau bod plant yn cael mynediad at straeon, geirfa a syniadau y tu hwnt i'w lefel ddarllen annibynnol, gan gefnogi gwrando, dychymyg, dealltwriaeth, sylw ac agweddau darllen cadarnhaol. Er enghraifft, dewiswch lyfrau sy'n rhoi cyfleoedd ar gyfer mynegiant, seibiant, ailadrodd, propiau neu weithredoedd sy'n dod â darllen yn fyw.
- **Cynnig dewis a chysylltiad:** Mae darparu dewis â chymorth ac ystod amrywiol o lyfrau sy'n adlewyrchu diddordebau, profiadau ac ieithoedd plant yn helpu i'w cymell trwy ddarparu galluogedd a pherthnasedd. Er enghraifft, gadewch i blant ddewis rhwng dau neu dri llyfr, pleidleisio dros stori i'w darllen yn y dosbarth, neu ddewis o fasged fach sy'n gysylltiedig â'u diddordebau neu eu bywydau.
- **Gwneud darllen yn gymdeithasol ac yn weladwy:** Gall darllen cymdeithasol atgyfnerthu darllen fel ymarfer gwerthfawr yn yr ystafell ddosbarth a helpu plant i ddatblygu hunaniaethau darllenydd. Er enghraifft, sgwrsio am lyfrau, rhoi argymhellion i gyfoedion, ymateb ar y cyd a darparu cyfleoedd i blant ddweud beth roedden nhw'n ei hoffi, beth nad oedden nhw'n ei hoffi, beth roedden nhw wedi sylwi arno neu beth roedden nhw wedi meddwl amdano. Gall brwdfrydedd oedolion helpu i normaleiddio darllen fel gweithgaredd pleserus ac ystyrlon.

## Adnoddau defnyddiol BookTrust

**Argymhellion llyfrau BookTrust:**

- Canllaw Llyfrau Gwych: llyfrau i blant 4-5 oed
- Llyfrau gorau i'w darllen yn uchel i blant 4 a 5 oed
- Llyfrau a awgrymir i'w darllen yn nhymor yr hydref yn y dosbarth Derbyn
- Beth i'w ddarllen ar ôl eich ffefrynnau

**Archwiliwch awgrymiadau pellach gan BookTrust yma:**

- Awgrymiadau da ar sut i annog a chefnogi mwy o ddewis llyfrau
- Pecyn cymorth i athrawon ar fod yn fodel rôl addysgu - dolen
- Sut i ddarllen yn uchel

# Atodiad

## Methodoleg ymchwil

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio ystod o ymchwil, gan gynnwys:

- Arolwg Teuluoedd Cenedlaethol BookTrust, arolwg ar-lein cynrychioliadol o 3,508 o rieni/gofalwyr plant 0–8 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng 16 Hydref a 5 Tachwedd 2025.
- Ymchwil dulliau cymysg gyda rhieni a gofalwyr, athrawon ac ymarferwyr cyn-ysgol a gynhaliwyd yn 2024–2025.
- Tystiolaeth ehangach ac ymchwil hanesyddol BookTrust.

Oni nodir yn wahanol, daw'r ystadegau o'n Harolwg Teuluoedd Cenedlaethol. Cynhaliwyd Arolwg Teuluoedd Cenedlaethol BookTrust 2025 gan ddefnyddio sampl wedi'i phwysoli, sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol o 3,508 o rieni a gofalwyr plant 0–8 oed ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a oedd yn cwmpasu pob grŵp incwm. Cynhaliwyd y gwaith maes yn ystod hydref 2025.

Gosodwyd cwotâu ar oedran plentyn (o fewn rhywedd) ac ar rywedd rhiant neu ofalwr, rhanbarth, statws gwaith ac incwm yr aelwyd. Cymhwyswyd pwysoliad i'r newidynnau hyn, gyda phwysoliad ychwanegol ar gyfer ethnigrwydd plant ac addysg rhieni, i adlewyrchu'r boblogaeth all-lein. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio trydedd don Arolwg Teuluoedd BookTrust.

Yn ein harolwg, mae 'darllen' yn cael ei ddiffinio mewn ffyrdd sy'n briodol i oedran sy'n adlewyrchu sut mae plant ifanc yn ymgysylltu â llyfrau fel arfer:

- **0–2 oed:** rhannu llyfrau, edrych arnynt neu chwarae â nhw (gan gynnwys llyfrau stori)
- **3–5 oed:** rhannu llyfrau, edrych arnynt neu eu darllen
- **6–8 oed:** darllen neu rannu llyfr

Mae darllen ar y cyd yn cyfeirio at blant yn darllen gyda rhiant, gofalwr neu oedolyn arall, fel yr adroddwyd gan rieni/gofalwyr. Ar gyfer plant 4–8 oed, nid yw hyn yn cynnwys darllen yn ystod gwersi ysgol.

Gofynnwyd rhai cwestiynau i rieni a gofalwyr plant mewn grwpiau oedran penodol yn unig, yn seiliedig ar berthnasedd datblygiadol. O ganlyniad, mae cymariaethau oedran yn amrywio yn dibynnu ar ba grwpiau y gofynnwyd pob cwestiwn iddynt.

Fel gydag unrhyw ymchwil arolwg ar raddfa fawr, dylid ystyried sawl cyfyngiad wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yma. Fel gyda phob mesur a adroddir gan rieni, mae rhywfaint o or-adrodd yn bosibl ar gyfer ymddygiadau proffil uchel fel darllen. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym yn dehongli mwynhad a adroddwyd ochr yn ochr â dangosyddion ymddygiadol a dangosyddion sy'n gysylltiedig â chyfyngiadau (fel arferion, pwysau amser, mynediad a rhwystrau), sy'n dangos patrymau cydlynol ar draws y set ddata. Er bod sampl yr arolwg wedi'i phwysoli i fod yn gynrychioliadol yn genedlaethol, cafodd yr arolwg ei chynnal ar-lein a gallai, o bosibl, dangynrychioli teuluoedd sy'n profi allgáu digidol neu lythrennedd is. Felly, dylid deall bod y canfyddiadau yn cynrychioli'r boblogaeth darged yn fras, o fewn terfynau cymryd rhan mewn arolwg ar-lein.

## Sylfeini ar gyfer grwpiau oedran a grwpiau incwm

Mae'r sylfeini wedi'u pwysoli ac efallai na fyddant yn cyfateb yn union i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

| **Band oedran** | **Incwm isel** (sylfaen wedi'i phwysoli) | **Incwm nad yw'n isel** (sylfaen wedi'i phwysoli) | **Cyfanswm** (ylfaen wedi'i phwysoli) |
|---|---|---|---|
| **12 mis neu lai** | 145 | 206 | 351 |
| **13-23 mis** | 165 | 221 | 386 |
| **2 oed** | 184 | 201 | 385 |
| **3 oed** | 145 | 241 | 386 |
| **4 oed** | 155 | 247 | 402 |
| **5 oed** | 158 | 247 | 405 |
| **6 oed** | 164 | 208 | 372 |
| **7 oed** | 182 | 218 | 400 |
| **8 oed** | 164 | 257 | 421 |
| **Cyfanswm** | 1462 | 2046 | 3508 |

## Cyfeiriadau


1 Kindred (2024) *School Readiness Survey: February 2024*. Llundain: Kindred. Ar gael yn: **https://kindredsquared.org.uk/wp-content/uploads/2024/02/Kindred-Squared-School-Readiness-Report-February-2024.pdf** (Cyrchwyd: Mai 2026)

2 Cyngor Gwyddonol Plentyndod Cynnar ar Degwch a'r Amgylchedd (2026) *From Resources to Routines: The Importance of Stability in the Developmental Environment*. Papur Gwaith Rhif 4. Caergrawnt, MA: Canolfan ar y Plentyn sy'n Datblygu ym Mhrifysgol Harvard. Ar gael yn: **https://developingchild.harvard.edu/wp-content/uploads/2026/03/HCDC-ECSCEE-Stability.pdf** (Cyrchwyd: Mai 2026)

3 Bryant, B. a Reed, J. (2025) *"Rising needs in the early years": Research into what is happening, implications, and potential solutions for a more inclusive and holistic approach to supporting children in the early years*. Llundain: Isos Partnership. Ar gael yn: **https://static1.squarespace.com/static/5ce55a5ad4c5c500016855ee/t/6915de2aa944f87c2c9efb45/1763040810765/Rising+needs+in+the+early+years.pdf** (Cyrchwyd: Mai 2026)

4 Ymddiriedolaeth Sutton (2024) *Closing the attainment gap*. Llundain: Ymddiriedolaeth Sutton. Ar gael yn: **https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2024/02/Closing-the-attainment-gap.pdf** (Cyrchwyd: Mai 2026)

5 BookTrust (2025) *The benefits of reading*. Leeds: BookTrust. Ar gael yn: **https://files.booktrust.org.uk/docs/documents/The-Benefits-of-Reading-Welsh-version_2025-10-17-150829_xxqt.pdf?v=1760713709** (Cyrchwyd: Mai 2026)

6 BookTrust (2026) *Tueddiadau, ysgogwyr ac anghydraddoldebau o ran darllen yn ystod plentyndod yn y DU: Arolwg Teuluoedd Cenedlaethol BookTrust*. Leeds: BookTrust. Ar gael yn: **https://files.booktrust.org.uk/docs/documents/BookTrusts-National-Family-Survey-2026-Full-Report-WELSH.pdf?v=1779793973** (Cyrchwyd: Mai 2026)

7 Clark, C., Picton, I., Cole, A. and Puri, V. (2026) *Teenage reading: (Re)framing the challenge*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol. Ar gael yn: **https://nlt.hacdn.org/media/documents/Teenage_reading_Reframing_the_challenge.pdf** (Cyrchwyd: Mai 2026)

8 BookTrust (2025) *Darllen, gweithrediad goruchwyliol a hunanreoleiddio: Sut mae darllen ar y cyd yn datblygu sgiliau bywyd allweddol yn y blynyddoedd cynnar.* Leeds: BookTrust. Ar gael yn: **https://files.booktrust.org.uk/docs/documents/BookTrust-Reading-Executive-Function-and-Self-Regulation-Guide-Welsh-updated.pdf?v=17623506012** (Cyrchwyd: Mai 2026)

9 BookTrust (2025) *Sut mae darllen yn esblygu yn y blynyddoedd cynnar: mewnwelediadau hydredol gan deuluoedd*. Leeds: BookTrust. Ar gael yn: **https://files.booktrust.org.uk/docs/documents/5016_BookTrust_LongitudinalBriefing_Welsh_AW.pdf?v=1746626700** (Cyrchwyd: Mai 2026)

10 Mol, S. E., Bus, A. G., de Jong, M. T., & Smeets, D. J. H. (2008) Added Value of Dialogic Parent–Child Book Readings: A Meta-Analysis. *Early Education and Development, 19*(1), 7–26. **https://doi.org/10.1080/10409280701838603**

11 BookTrust (2021) *My Story Pack Evaluation*. Ymchwil heb ei chyhoeddi

12 El-Hoss, T., Thomas, F., Hughes, S., Raja, A., Horne, A. and Seth, C. (2026) *Making a Support Plan: A Kinship Care Companion*. Prifysgol Caerwysg, Kinship a CoramBAAF. Ar gael yn: **Making-a-Support-Plan-Professionals-guidance-final.pdf** (Cyrchwyd: Mai 2026)

13 Wyse, D. and Bradbury, A. (2022). Reading wars or reading reconciliation? A critical examination of robust research evidence, curriculum policy and teachers' practices for teaching phonics and reading. *Review of Education, 10:1.*; Torgerson, C., Brooks, G., Gascoine, L., & Higgins, S. (2018). Phonics: reading policy and the evidence of effectiveness from a systematic 'tertiary' review. Research Papers in Education, 34(2), 208–238. **https://doi.org/10.1080/02671522.2017.1420816** (Cyrchwyd: Mai 2026)

**Ynglŷn â BookTrust**

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Rydym yn gweithio gyda dros 56,000 o bartneriaid, sy'n gweithredu ym mhob awdurdod lleol, a bob blwyddyn rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ochr yn ochr â'n partneriaid, rydym yn darparu rhaglenni yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant. Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel neu deuluoedd sy'n agored i niwed, yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes sydd ynghlwm wrtho.

Ewch i booktrust.org.uk i ddarganfod mwy neu cysylltwch â **queries@booktrust.org.uk**.

Diolch i Gyngor Celfyddydau Lloegr ac Enterprise Mobility am gefnogi'r ymchwil hon yn hael, ac i'r holl deuluoedd a rannodd eu hamser a'u profiadau gyda ni.

BookTrust
**Getting children reading**

**booktrust.org.uk**

**Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol:** @BookTrust

©2026 BookTrust. Rhif elusen: 313343